

Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Offerynnau Statudol gydag Adroddiadau Clir

2 Tachwedd 2015

CLA591 - Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwysio Deddfiadau) (Cymru) (Diwygio) 2015

Gweithdrefn: Negyddol

Bwriad Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014 yw gosod cyfrifoldeb statudol ynghylch cynllunio strategol ar bob ysgol a gynhelir, gan gynnwys unedau cyfeirio disgyblion a meithrinfeydd. Roedd rheoliad 10 yn cyfeirio'n wallus at "Rheoliadau Addysg (Unedau Cyfeirio Disgyblion) (Cymhwysio Deddfiadau) (Cymru) 2007" yn hytrach na "Rheoliadau Addysg (Cynlluniau Datblygu Ysgolion) (Cymru) 2014". Mae'r rheoliadau hyn yn cywiro'r camgymeriad hwnnw.

CLA592 - Rheoliadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Darpariaethau Canlyniadol) 2015

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaethau canlyniadol i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ("y Ddeddf").

Mae rheoliad 3 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas ag adran 15 o'r Ddeddf, sy'n diffinio'r cyfnod adrodd ar gyfer archwiliadau Archwilydd Cyffredinol Cymru. Mae'r adran hon i fod i ddod i rym llai na blwyddyn cyn etholiad cyffredinol nesaf Cynulliad Cenedlaethol Cymru. O ganlyniad, mae'n bosibl y bydd amheuaeth ynghylch pryd y bydd y cyfnod adrodd cyntaf a ddisgrifir yn is-adran(6) o adran 15 yn dechrau. Mae'r rheoliad hwn, felly, yn addasu adran 15(6)(a) er mwyn ei gwneud yn glir bod y cyfnod adrodd cyntaf o dan yr adran hon yn dechrau un mis cyn yr etholiad nesaf (yn ymarferol, 5 Ebrill 2016 fydd y dyddiad hwn).

Mae rheoliad 4 yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ("y Comisiynydd") o ran yr amcangyfrifon incwm a threuliau ar gyfer blwyddyn ariannol 2016-2017. Mae paragraff 19 o Atodlen 2 i'r Ddeddf yn darparu bod yn rhaid i'r Comisiynydd lunio amcangyfrif o incwm a threuliau'r Comisiynydd a staff y Comisiynydd ar gyfer pob blwyddyn ariannol ac eithrio'r flwyddyn gyntaf. Yn unol â pharagraff 19(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, mae gofyn i'r Comisiynydd gyflwyno'r amcangyfrif i Weinidogion Cymru o leiaf bum mis cyn dechrau'r flwyddyn ariannol y mae'n ymwneud â hi.

O ystyried yr amserlen ar gyfer penodi'r Comisiynydd, mae'r rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth ganlyniadol sy'n addasu paragraff 19(2) o Atodlen 2 i'r Ddeddf, fel bod yn rhaid i'r Comisiynydd--ar gyfer



blwyddyn ariannol 2016-2017 yn unig--gyflwyno'r amcangyfrif dri mis ar ôl iddo gael ei benodi gan Weinidogion Cymru.

CLA593 - Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) (Diwygio) 2015

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth Mabwysiadu a Gwasanaethau Cyfryngol (Mabwysiadau Cyn-gychwyn) (Cymru) 2005, sy'n gwneud darpariaeth o dan adran 98 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 at ddibenion cynorthwyo personau a fabwysiadwyd cyn 30 Rhagfyr 2005 i gael gwybodaeth am eu mabwysiadu ac i hwyluso cysylltiad rhwng y bobl hynny a'u perthnasau geni.

